

## Gwobr Ian McKellen Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth - Termau ac Amodau Llawn 2024

1. Mae'r Wobr yn agored i unrhyw berson ifanc rhwng 16 - 25 oed sy'n bwriadu parhau ei hyfforddiant gyrfäol yn y celfyddydau creadigol - yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, theatr, dawns a'r celfyddydau gweledol.
2. Anelir y Wobr at bobl ifanc rhwng 16 - 25 oed sy'n gallu dangos addewid artistig ac angerdd tuag at eu ffurf gelf ddewisedig, ac sydd wedi ennill lle i astudio yn ystod y flwyddyn academiaidd ganlynol.
3. Mae croeso i'r sawl sydd wedi ymgeisio am y Wobr o'r blaen gyflwyno cais arall.
4. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais i Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth erbyn Dydd Gwener 16 Awst 2024 yn defnyddio'r ffurflen gais swyddogol.
5. Rhaid anfon ceisiadau at [lao8@aber.ac.uk](mailto:lao8@aber.ac.uk)
6. Disgwylir i ymgeiswyr fynychu cyfweiliad byr i drafod eu cais yn ystod Awst 2024.
7. Bydd y Panel Dyfarnu yn cyfarfod i benderfynu'r enillydd/enillwyr yn ystod mis Awst 2023; mae penderfyniad y Panel Dyfarnu yn derfynol.
8. Gwerth y Wobr yw £500. Gall y Panel ddewis cynnig y swm cyfan i un ymgeisydd, neu ei rannu rhwng dau ymgeisydd llwyddiannus. Mae'r Wobr ar gyfer un flwyddyn yn unig. Gwneir y taliad yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynnnydd.
9. Un Wobr sydd ar gael ar gyfer 2024.
10. Disgwylir i dderbynnnydd y Wobr gyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn academiaidd yn dynodi sut mae'r cwrs wedi bod o fudd iddo/iddi. Byddai'r Ganolfan yn awyddus i gadw cysylltiad yn ystod y cyfnod astudio a thu hwnt, ac i gynnig unrhyw gefnogaeth fentora a all fod o gymorth i'r unigolyn.
11. Os na chydymffurfir ag unrhyw un o'r gofynion uchod fe ddiddymir y Wobr.